Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Rheoleiddio

# Polisïau a Gweithdrefnau

## Polisi Cyhoeddi

**Polisi ar gyhoeddi a rhannu gwybodaeth am unigolion cofrestredig ac eraill sy'n ymwneud ag achosion Gofal Cymdeithasol Cymru**

**2024**

# Cynnwys


| Adran | Materion dan sylw | Tudalen |
|---|---|---|
| Adran 1 | Cyflwyniad – y rheswm dros y polisi hwn | 3 |
| Adran 2 | Sut rydym yn cyflawni ein dyletswyddau cyhoeddi | 5 |
| Adran 3 | Gwybodaeth sy’n ymddangos ar y Gofrestr a’r Rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr | 7 |
| Adran 4 | Gwybodaeth sy’n ymddangos ar dudalen Gwrandawiadau ein gwefan | 9 |
| Adran 5 | Achosion addasrwydd i ymarfer nad ydynt yn cynnwys materion iechyd | 11 |
| Adran 6 | Achosion addasrwydd i ymarfer pan fydd amhariad yn gysylltiedig â mater iechyd | 14 |
| Adran 7 | Achosion Cofrestru | 17 |
| Adran 8 | Achosion Adfer | 18 |
| Adran 9 | Apelau i’r Tribiwnlys Safonau Gofal | 19 |
| Adran 10 | Datganiadau i’r wasg | 19 |
| Adran 11 | Amrywiol | 20 |
| Adran 12 | Cwynion a phryderon | 23 |
| Adran 13 | Adnoddau eraill | 24 |
| Atodiad 1 | Gwybodaeth sy’n ymddangos ar Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru | 25 |
| Atodiad 2 | Gwybodaeth a gynhwysir yn y Rhestr o bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr a’r Rhestr Dileu drwy Gytundeb | 30 |

# Polisi ar gyhoeddi a rhannu gwybodaeth am unigolion cofrestredig ac eraill sy’n ymwneud ag achosion Gofal Cymdeithasol Cymru

## 1. Cyflwyniad

### Y rheswm dros y polisi hwn

1.1 Dywed Adran 68 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“y Ddeddf”) mai prif amcan Gofal Cymdeithasol Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau yw diogelu, hybu a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd yng Nghymru.[1]

1.2 Yn rhan o’n gwaith diogelu’r cyhoedd, rhaid i ni gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru (‘y Gofrestr’) ac, ar wahân, ‘Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr (‘y Rhestr’). Mae adrannau 80 a 110 y Ddeddf yn cyflwyno’r gofynion hyn. Mae’r Rhestr yn dangos y bobl hynny y mae panel addasrwydd i ymarfer wedi tynnu eu henw o’r Gofrestr gan ddefnyddio ‘gorchymyn dileu’ neu ‘dileu drwy gytundeb’.

1.3 Mae galluogi pobl i weld y Gofrestr a’r Rhestr yn ofyniad cyfreithiol ac mae’n ein helpu ni yn ein dyletswydd statudol i ddiogelu’r cyhoedd trwy ganiatáu i bobl wirio:

- a yw unigolyn yn weithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig;
- a yw unigolyn yn rhydd i ymarfer heb gyfyngiad;
- a dynnwyd enw’r unigolyn o’r Gofrestr, a gafodd ei atal dros dro neu a fu’n destun amodau erioed.[2]

1.4 Mae’r rhan fwyaf o’r categorïau gwybodaeth a gyhoeddwn yn orfodol yn ôl y gyfraith a phrin yw’r meysydd lle y mae disgresiwn. Mae’r polisi hwn yn

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted
[2] Cyflwynir y gofynion hyn yn Rheoliadau 4(8), 4(9) ac 8 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016.

esbonio sut rydym yn cyflawni ein dyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer a sut rydym yn defnyddio ein pwerau disgresiwn yn y nifer fach o achosion y mae’r pwerau hyn yn berthnasol iddynt.

1.5 Prif nodau’r polisi hwn yw:

- darparu egwyddorion arweiniol i’n staff ar gyfer gweithredu’n gyfreithlon ac yn deg wrth gyhoeddi gwybodaeth am addasrwydd personau cofrestredig presennol neu flaenorol i ymarfer;

- gwneud gwybodaeth am addasrwydd gweithwyr gofal cymdeithasol i ymarfer yn fwy hygyrch i’r cyhoedd, trwy esbonio sut rydym yn mynd ati i gyhoeddi gwybodaeth o’r fath;

- helpu gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig i ddeall sut bydd gwybodaeth am eu haddasrwydd i ymarfer yn cael ei chyflwyno ar ein Cofrestr, ein Rhestr ac ar ein gwefan; a

- helpu’r cyhoedd i ddeall ein gwaith rheoleiddio.

1.6 Mae’r polisi hwn yn cyflwyno’r categorïau gwybodaeth y byddwn yn eu cynnwys ar ein gwefan, ein Cofrestr a’n Rhestr ac am ba hyd y bydd y wybodaeth hon yn aros yno.[3]

1.7 Mae’r polisi’n adlewyrchu:

- ein dyletswyddau cyfreithiol;
- hawliau unigolion sy’n gysylltiedig ag achosion addasrwydd i ymarfer;
- diddordeb y cyhoedd yn yr achosion hynny;

[3] Mae cyfeiriadau at y wefan yn ymwneud â thudalennau Gwrandawiadau gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru ac nid y Gofrestr ar-lein.

- ein hangen i wneud yn siŵr bod unrhyw wybodaeth a gyhoeddwn am ein hachosion addasrwydd i ymarfer yn berthnasol, yn gywir, yn gymesur ac yn deg; ac
- ein dyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, gan gynnwys yr angen bod gennym Ddogfen Bolisi Briodol ar waith wrth brosesu data am droseddau a data categori arbennig.[4]

1.8 Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol, neu'n amlach os bydd angen.

## 2 Sut rydym ni'n cyflawni ein dyletswyddau cyhoeddi

2.1 Rydym yn defnyddio fersiynau ar-lein o'r Gofrestr a'r Rhestr er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gael at y wybodaeth. Mae'r Gofrestr a'r Rhestr ar gael trwy ddefnyddio'r ddolen ar dudalen Cofrestru ein gwefan.[5] Hefyd, gallwn ddiwallu ceisiadau rhesymol am ddetholiadau o'r Gofrestr mewn fformatau eraill.

2.2 Mae'r categorïau gwybodaeth y mae'n rhaid i ni eu cynnwys ar y Gofrestr, yn ogystal â chategorïau eraill y caniateir i ni eu cynnwys, wedi'u cyflwyno yn adran 91 y Ddeddf. Ategir hyn gan Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016[6] a Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru Cynnwys y Gofrestr.[7]

2.3 Mae'r categorïau gwybodaeth y mae'n rhaid i ni eu cynnwys ar y Rhestr wedi'u cyflwyno yn adran 110 y Ddeddf a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr y Personau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016.[8]

2.4 Ar yr un dudalen o'n gwefan â'r Gofrestr a'r Rhestr, mae rhestr o'r bobl y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi tynnu eu henw o'r Gofrestr, drwy gytundeb,

---

[4] Am esboniad o ddata categori arbennig, gweler: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/lawful-basis-for-processing/special-category-data/
[5] Chwilio'r Gofrestr – Porth GCC (gccarlein.cymru)
[6] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/1097/contents/made
[7] https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/SCW-Content-of-Register-Rules-2020-FINAL.pdf
[8] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/1111/body/made

yn sgil archwilio pryderon am eu haddasrwydd i ymarfer.[9] Yr enw ar hyn yw dileu drwy gytundeb.

2.5 Gallwn ddefnyddio dileu drwy gytundeb mewn achosion pan nad oes angen cynnal gwrandawiad i'r honiadau er budd y cyhoedd, er y daethom i'r casgliad fod posibilrwydd gwirioneddol i banel ganfod bod amhariad ar addasrwydd i ymarfer. Mae'r ffaith bod enw'r person wedi'i dynnu o'n Cofrestr a'n bod yn cyhoeddi gwybodaeth am ddileu drwy gytundeb yn ein rhestr o achosion Dileu drwy Gytundeb, yn diogelu'r cyhoedd yn briodol.

2.6 Mae'r ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am ddileu drwy gytundeb a awdurdodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru, yn hytrach na phanel, wedi'i chyflwyno yn adrannau 110(5) a 161(7)(c) y Ddeddf.

2.7 Nid yw'r rhestr dileu drwy gytundeb yn cynnwys:

a) enwau'r rhai sydd wedi gadael y Gofrestr o ddewis ac nad oes unrhyw bryderon addasrwydd i ymarfer yn hysbys amdanynt.

b) dileu drwy gytundeb a awdurdodwyd gan banel addasrwydd i ymarfer – mae'r rhain yn dilyn cyfaddefiad o amhariad ac ymddangosant ar y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr.

2.8 O dan Adran 161 y Ddeddf, rhaid i ni hefyd dynnu sylw'r cyhoedd at achosion addasrwydd i ymarfer a chanlyniad yr achosion hynny. Rydym yn defnyddio ein gwefan a datganiadau i'r wasg i wneud hyn, er y gallwn ddefnyddio mathau eraill o gyhoeddusrwydd.

2.9 Ein rheswm dros gyhoeddi'r wybodaeth hon yw i sicrhau bod ein prosesau yn dryloyw ac i hybu hyder y cyhoedd yn ein gwaith rheoleiddio ac yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am unrhyw wrandawiadau y gallant fynd iddynt.[10]

---

[9] Mae hyn yn berthnasol i ddileu drwy gytundeb o dan Adran 126(3) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

[10] Mae rhai gwrandawiadau'n cael eu cynnal yn breifat ac ni all y cyhoedd ddod i'r gwrandawiadau hynny. Os bydd gwrandawiad yn cael ei gynnal yn breifat, byddwn yn datgan hynny'n glir ar ein gwefan.

## 3. Gwybodaeth sy'n ymddangos ar y Gofrestr a'r Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr

3.1 Rhaid i ni gynnwys y wybodaeth ganlynol am yr holl bersonau cofrestredig ar y Gofrestr cyhyd ag y byddant wedi cofrestru:

a. enw;[11]
b. rhif cofrestru;
c. dyddiad cofrestru;
ch. ym mha ran(nau) o'r Gofrestr y mae'r unigolyn wedi Cofrestru;
d. cymwysterau'r unigolyn i ymarfer yn y rôl gofrestredig;
dd. sir post y cyfeiriad y mae'r unigolyn yn cael ei gyflogi neu'n hunangyflogedig ynddi (oni bai bod hynny'r tu allan i'r Deyrnas Unedig);[12]
e. os yw'r unigolyn cofrestredig yn fyfyriwr gwaith cymdeithasol, y sir post y mae'r unigolyn cofrestredig yn cymryd rhan mewn cwrs gradd ynddi;[13] ac
f. y cyfryw gymwysterau, gwybodaeth neu brofiad sydd wedi'i nodi yn yr atodlen i Reoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016.

3.2 Rhaid i ni ddiweddaru'r Gofrestr i ddangos newidiadau perthnasol i gofnod y person cofrestredig. Mae hyn yn cynnwys manylion unrhyw achosion addasrwydd i ymarfer neu achosion apelau cofrestru perthnasol. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno'r categorïau gwybodaeth addasrwydd i ymarfer y mae'n rhaid i ni ei chynnwys ar y Gofrestr ac eraill y mae caniatâd i ni eu cynnwys (trwy

[11] O dan reol 3 Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2020, mae hyn yn cynnwys enwau cyfredol a blaenorol. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol, gall y Cofrestrydd benderfynu peidio â chynnwys enwau blaenorol person ar y Gofrestr.
[12] Os nad yw unigolyn cofrestredig yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd, bydd 'ddim yn berthnasol' yn ymddangos yn y maes hwn. Yn ogystal, gall y Cofrestrydd ganiatáu cais gan unigolyn cofrestredig/ymgeisydd i atal y wybodaeth hon mewn amgylchiadau eithriadol. Os caniateir hyn, bydd 'ddim yn berthnasol' yn ymddangos ym maes y sir. Nid yw sir yn faes perthnasol yn y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr.
[13] Ni fydd enw neu enwau'r myfyriwr yn cael eu rhoi ar y Gofrestr hyd nes bydd y Cofrestrydd yn fodlon bod y myfyriwr wedi dechrau cymryd rhan mewn cwrs gradd.

reolau). Hefyd, mae'n rhoi manylion am pryd byddwn yn dileu'r wybodaeth hon o olwg y cyhoedd.

3.3 O dan y gyfraith, mae'n rhaid i rywfaint o wybodaeth am achosion addasrwydd i ymarfer aros ar y Gofrestr tra bydd yr unigolyn wedi cofrestru, hyd yn oed pan fydd grym gorchymyn addasrwydd i ymarfer wedi dod i ben. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am orchmynion atal dros dro, gorchmynion cofrestru amodol a thynnu o'r Gofrestr yn flaenorol.[14] Cewch fanylion yn Atodiad 1.

3.4 Hefyd, mae'n rhaid i ni ddiweddaru'r Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr gan roi newidiadau perthnasol. Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r penderfyniadau y mae hyn yn gysylltiedig â nhw a'r wybodaeth a fydd yn ymddangos ar y Rhestr.

**Cyhoeddi Achosion o Ddileu Drwy Gytundeb**

3.5 Mae rhestr ar wahân sy'n dangos achosion o ddileu drwy gytundeb a awdurdodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru i'w gweld ar ein gwefan ochr yn ochr â'n Cofrestr a'n Rhestr. Mae'n cynnwys y wybodaeth ganlynol am y rhai a gafodd eu dileu drwy gytundeb:

- enw;
- rhif cofrestru; a
- manylion y datganiad cytunedig o ffeithiau, lle y bo'n briodol.

3.6 Pan fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn caniatáu dileu drwy gytundeb o dan **Reol 9(2)** Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio), ni fydd angen datganiad cytunedig o ffeithiau. Y rheswm am hyn yw y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru, mewn achosion o'r fath, wedi penderfynu nad oes gobaith gwirioneddol o ganfod amhariad ar addasrwydd i ymarfer ac, felly, na ddylai'r achos gael ei atgyfeirio i wrandawiad addasrwydd i ymarfer.

[14] Mae hyn yn cynnwys achosion pan fydd y person wedi gadael y Gofrestr a'i aildderbyn ac mae'n berthnasol ni waeth a wnaed y gorchymyn (ar gyfer amodau, atal dros dro neu dynnu o'r Gofrestr) o dan Reolau'r Cyngor Gofal neu Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru.

3.7 Fodd bynnag, pan fydd dileu drwy gytundeb wedi'i ganiatáu o dan **Reol 9(3)** Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio), mae angen datganiad cytunedig o ffeithiau a chaiff ei gyhoeddi. Mae Rheol 9(3) yn ymwneud ag achosion y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi penderfynu bod gobaith gwirioneddol iddynt ganfod amhariad ar addasrwydd i ymarfer, ond na fyddai cynnal gwrandawiad addasrwydd i ymarfer er budd y cyhoedd. Mae'r datganiad yn helpu'r cyhoedd i ddeall y pryderon am addasrwydd yr unigolyn i ymarfer a'r sail dros y penderfyniad i ganiatáu dileu drwy gytundeb. Bydd y Cofrestrydd neu'r Dirprwy Gofrestrydd yn ystyried unrhyw eithriadau i'r gofynion cyhoeddi.

3.8 Pan fydd datganiad o ffeithiau cytunedig yn cynnwys gwybodaeth am iechyd gweithiwr, bydd y wybodaeth hon yn cael ei chuddio o'r datganiad, neu ni chyhoeddir y datganiad o gwbl.[15]

3.9 Bydd gwybodaeth am ddileu drwy gytundeb y mae Gofal Cymdeithasol Cymru (yn hytrach na phanel) wedi'i awdurdodi yn cael ei dileu o'n gwefan ar ôl 2 flynedd.

3.10 Mewn achosion o'r fath, ni fydd enw'r unigolyn yn cael ei ddangos ar y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr. Bydd hyn oherwydd bod y Rhestr yn dangos dim ond y bobl hynny sy'n destun gorchmynion dileu neu ddileu drwy gytundeb sydd wedi cael ei awdurdodi gan banel addasrwydd i ymarfer.

## 4. Gwybodaeth sy'n ymddangos ar dudalen Gwrandawiadau ein gwefan

Ein dyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi gwybodaeth am achosion addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau adfer

[15] Mewn achosion o'r fath, bydd y Cofrestrydd neu'r Dirprwy Gofrestrydd yn penderfynu p'un ai i gyhoeddi rhywfaint o'r datganiad neu'r cyfan ohono.

4.1 Dywed Adran 161 y Ddeddf fod yn rhaid i ni gyhoeddi penderfyniadau addasrwydd i ymarfer penodol.[16] Mae'n cynnwys manylion penderfyniadau perthnasol ac mae'n rhestru penderfyniadau ychwanegol y gallem eu cyhoeddi, er nad yw'n ofynnol i ni wneud. Dywed na chaniateir i ni gyhoeddi unrhyw wybodaeth am iechyd corfforol neu iechyd meddwl person.

4.2 Dywed Adran 109 y Ddeddf fod yn rhaid i ni gyhoeddi unrhyw benderfyniadau gan baneli apelau cofrestru i beidio ag adfer person i'r Gofrestr, ynghyd ag unrhyw benderfyniadau na all person wneud unrhyw geisiadau pellach i'w adfer. Dywed na chaniateir i ni gyhoeddi unrhyw wybodaeth am iechyd corfforol neu iechyd meddwl person.

4.3 Gall fod amgylchiadau eithriadol pan ddewiswn beidio â chyhoeddi gwybodaeth am wrandawiad, hyd yn oed pan ganiateir i ni wneud. Y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd fydd yn gwneud y penderfyniadau hyn, gan ystyried materion fel y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- ein dyletswyddau amddiffyn y cyhoedd a diogelu;
- hawliau'r amrywiol bartïon sy'n gysylltiedig â'r gwrandawiad ac unrhyw risgiau i'w hawliau yn sgil cyhoeddi'r wybodaeth;
- unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n atal cyhoeddi mathau penodol o wybodaeth;
- cyngor cyfreithiol a chyfraith achosion perthnasol;
- yr angen am dryloywder yn ein prosesau; a
- pholisi perthnasol y llywodraeth.

4.4 Dywed Adran 159 y Ddeddf y gallwn gyhoeddi neu ddatgelu i unrhyw berson wybodaeth am addasrwydd person cofrestredig i ymarfer os ydym yn meddwl ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Gwneir unrhyw benderfyniadau o'r fath gan ein Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd.

4.5 Ni fyddwn fel arfer yn cyhoeddi:

16

- gwybodaeth sy'n datgelu personau o dan 18 oed, gan gynnwys personau cofrestredig o dan 18 oed;
- gwybodaeth am euogfarnau wedi'u 'disbyddu' o dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr;
- gwybodaeth sy'n enwi dioddefwyr troseddau rhywiol;
- manylion achosion llys teulu preifat;
- enw cartref plant/cartref gofal preswyl;
- gwybodaeth sy'n enwi tystion;
- gwybodaeth sy'n cadarnhau bod person wedi'i gynnwys ar un neu fwy o restrau gwaharddedig;
- data categori arbennig.

4.6 Mae prosesau sgrinio priodol ar waith yn ein timau Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau i wneud yn siŵr na chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y wybodaeth a gyhoeddwn neu a rannwn gyda'r wasg neu'r cyhoedd. Mae ein hadolygiadau cyn gwrandawiadau yn darparu gwiriadau sgrinio ychwanegol.

4.7 Fel arfer, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau apelau cofrestru. Gwneir hyn i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am faterion perthnasol amddiffyn y cyhoedd ac i helpu'r cyhoedd i ddeall ein penderfyniadau. Gallai'r wybodaeth hon hefyd helpu'r person cofrestredig trwy sicrhau y bydd y ffeithiau perthnasol ar gael i'r rhai sy'n dyfarnu pam mae gorchymyn penodol ar waith.

4.8 Fel arfer, rydym yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg am wrandawiadau cyhoeddus sydd ar ddod, sy'n cynnwys y canlynol:

- enw a'r rôl gofrestredig
- cyflogwr presennol neu gyflogwr blaenorol
- lleoliad eu gweithle neu gyn-weithle
- crynodeb byr o'r honiad(au)

4.9 Mae’r polisi hwn yn cyflwyno manylion am yr hyn y byddwn yn ei gyhoeddi ar ein gwefan ac am ba hyd y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi.

# 5 Achosion addasrwydd i ymarfer nad ydynt yn cynnwys materion iechyd

**Gwybodaeth a gyhoeddir cyn gwrandawiad**

5.1 Wythnos cyn gwrandawiad addasrwydd i ymarfer, byddwn yn rhoi’r wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig ar ein gwefan:

- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- dyddiad ac amser y gwrandawiad;
- y math o wrandawiad;
- lleoliad y gwrandawiad; a
- chrynodeb o’r honiadau.[17]

**Beth rydym yn ei gyhoeddi mewn achosion lle y bydd canfyddiad o amhariad**

5.2 Os bydd panel Gofal Cymdeithasol Cymru yn canfod bod amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer, byddwn yn diweddaru’r Gofrestr neu’r Rhestr, fel y bo’n briodol. Byddwn yn gwneud hynny yn unol â’r arweiniad yn Atodiadau 1 a 2.

5.3 Ar ddiwedd y gwrandawiad, byddwn hefyd yn ychwanegu’r wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig at y Gofrestr neu’r Rhestr:

[17] Sylwch: nid oes cyhuddiadau yn gysylltiedig â gwrandawiadau adfer na gwrandawiadau adolygu Addasrwydd i Ymarfer.

- canlyniad y gwrandawiad a 'Chrynodeb o'r Penderfyniad' sy'n amlinellu'n fyr benderfyniadau'r panel ynghylch ffeithiau, amhariad a gwarediad. Gellir weld y Crynodeb o'r Penderfyniad o'r wefan neu'r Gofrestr.

5.4 Bydd canlyniad y gwrandawiad yn aros ar ein gwefan tra bydd y gorchymyn addasrwydd i ymarfer ar waith a chaiff ei ddileu pan ddaw grym y gorchymyn i ben – gweler Atodiad 1. Mae hyn yn cyd-fynd â'r amserlenni a osodwyd gan y gyfraith ar gyfer cynnwys y Gofrestr a'r Rhestr. Wrth gyhoeddi'r wybodaeth hon, byddwn yn rhoi sylw dyledus i'r angen am fod yn gywir, yn gymesur, yn dryloyw ac yn deg.

5.5 Gall aelodau'r cyhoedd wneud cais am gopi o resymau'r panel. Dangosir y broses ar gyfer gwneud ceisiadau o'r fath ar ein gwefan. Byddwn yn rhyddhau'r rhesymau iddynt yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol neu gyfyngiadau mewn polisi ar gyhoeddi neu rannu'r wybodaeth hon.

5.6 Os gorchymyn dileu fydd canlyniad y gwrandawiad, byddwn yn cadw'r wybodaeth am y gwrandawiad a'r Crynodeb o'r Penderfyniad am 5 mlynedd. Mae'r amserlen hon yn adlewyrchu:

- ein dyletswydd statudol i amddiffyn y cyhoedd
- natur ddifrifol y gorchymyn dileu
- y gwaharddiad ar wneud cais o'r newydd i'r Gofrestr am o leiaf 5 mlynedd yn dilyn gorchymyn dileu
- yr angen i ni dynnu sylw'r cyhoedd at y cyfyngiad ar yr unigolyn rhag ymarfer yn ystod y cyfnod hwn.

5.7 Yn unol â gofynion y Ddeddf a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr y Personau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016, bydd enwau'r rhai sy'n destun gorchymyn dileu yn aros ar y Rhestr oni bai a hyd nes y caniateir iddynt ddychwelyd i'r Gofrestr.

**<u>Beth rydym yn ei gyhoeddi mewn achosion lle y bydd canfyddiad o ddim amhariad</u>**

**Dim amhariad a dim camau pellach**

5.8 Os bydd panel yn canfod nad oes amhariad ar addasrwydd person i ymarfer, byddwn yn rhoi canlyniad y gwrandawiad ar adran Canlyniadau Gwrandawiadau ein gwefan ar ddiwedd y gwrandawiad. Byddwn yn ychwanegu Crynodeb o'r Penderfyniad dim ond os bydd yr unigolyn yn cydsynio i hynny. Mae hyn hefyd yn berthnasol mewn achosion pan fydd y panel wedi canfod na phrofwyd y ffeithiau ac, felly, nid yw wedi mynd ymlaen i ystyried mater amhariad.

5.9 Fel arfer, byddwn yn cadw'r canlyniad a, lle y bo'n berthnasol, y Crynodeb o'r Penderfyniad, am wythnos o ddyddiad y penderfyniad. Bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn ystyried unrhyw geisiadau gan y person cofrestredig i gyhoeddi'r wybodaeth am gyfnod hwy.

**Dim amhariad – cyngor ffurfiol a roddir gan y panel**

5.10 Os bydd panel yn canfod nad oes amhariad ar addasrwydd person i ymarfer ond, serch hynny, mae'n penderfynu bod angen cyhoeddi cyngor ffurfiol, byddwn yn cyhoeddi canlyniad y gwrandawiad a'r Crynodeb o'r Penderfyniad ar ddiwedd y gwrandawiad.

5.11 Fel arfer, byddwn yn cadw'r canlyniad a'r Crynodeb o'r Penderfyniad am dri mis o ddyddiad y penderfyniad. Bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn ystyried unrhyw geisiadau gan y person cofrestredig i gyhoeddi'r wybodaeth am gyfnod hwy.

**Dim amhariad – rhybudd ffurfiol a roddir gan y panel**

5.12 Os bydd panel yn canfod nad oes amhariad ar addasrwydd person i ymarfer ond bod angen cyhoeddi rhybudd ffurfiol, byddwn yn rhoi canlyniad y gwrandawiad a'r Crynodeb o'r Penderfyniad  ar ddiwedd y gwrandawiad.

5.13 Byddwn yn cadw'r canlyniad a'r Crynodeb o'r Penderfyniad ar ein gwefan am gyfnod y rhybudd. Bydd y rhybudd yn ymddangos ar gofnod y person ar y Gofrestr.

# 6 Achosion addasrwydd i ymarfer lle y mae iechyd yn sail dros amhariad

**<u>Gwybodaeth a gyhoeddir cyn gwrandawiad</u>**

6.1 Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol ar dudalen gwrandawiadau ein gwefan wythnos cyn gwrandawiad:

- enw
- rhif cofrestru
- rôl
- y math o wrandawiad ac a fydd y gwrandawiad cyfan yn cael ei gynnal yn breifat
- dyddiad, amser a lleoliad (os na chynhelir y gwrandawiad o bell).

**<u>Canfyddiad o amhariad – achosion sy'n cynnwys amhariad yn gysylltiedig ag iechyd</u>**

6.2 Pan ganfyddir bod amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer yn dilyn gwrandawiad pan fydd iechyd yn sail dros amhariad, ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth am iechyd corfforol neu iechyd meddwl y person cofrestredig. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol ar ddiwedd y gwrandawiad:

- canlyniad y gwrandawiad a, lle y bo'n berthnasol, y Crynodeb o'r Penderfyniad.[18]

Byddwn yn cadw'r wybodaeth hon cyhyd ag y bydd y gorchymyn addasrwydd i ymarfer ar waith – gweler Atodiad 1.

6.3 Os bydd y gorchymyn ar gyfer dileu person o'r Gofrestr, byddwn yn cadw'r wybodaeth ar ein gwefan am 5 mlynedd.[19] Mae'r amserlen hon yn adlewyrchu:

- ein dyletswydd statudol i amddiffyn y cyhoedd
- natur ddifrifol y gorchymyn dileu
- y gwaharddiad ar wneud cais i'r Gofrestr am o leiaf 5 mlynedd yn dilyn gorchymyn dileu
- yr angen i ni dynnu sylw'r cyhoedd at y cyfyngiad ar yr unigolyn rhag ymarfer yn ystod y cyfnod hwn.

**Canfyddiad o ddim amhariad mewn achosion sy'n cynnwys amhariad yn gysylltiedig ag iechyd**

**Dim amhariad a dim camau pellach – achosion iechyd**

6.4 Os bydd panel yn canfod nad oes amhariad ar addasrwydd person i ymarfer ac nad oes angen unrhyw gamau pellach, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ychwanegol ganlynol ar dudalen Canlyniadau gwrandawiadau ein gwefan ar ddiwedd y gwrandawiad:

- canlyniad[20]

[18] Os cynhaliwyd rhywfaint neu'r cyfan o'r gwrandawiad yn gyhoeddus, bydd y Crynodeb o'r Penderfyniad yn cael ei gyhoeddi hefyd, ond bydd gwybodaeth am iechyd y person yn cael ei dileu. Os cynhaliwyd y gwrandawiad cyfan yn breifat, dim ond y canlyniad fydd yn cael ei gyhoeddi.
[19] Mae'r amserlenni'n adlewyrchu ein rôl fel rheoleiddiwr proffesiynol, ein dyletswydd i amddiffyn y cyhoedd a'r angen i ni fod yn gywir, yn gymesur, yn dryloyw ac yn deg.
[20] Os cynhaliwyd rhywfaint neu'r cyfan o'r gwrandawiad yn gyhoeddus ac mae'r person yn cydsynio, bydd y Crynodeb o'r Penderfyniad yn cael ei gyhoeddi hefyd. Fodd bynnag, bydd hwn ond yn ymwneud â'r rhannau o'r gwrandawiad a gynhaliwyd yn gyhoeddus ac ni fydd yn cynnwys gwybodaeth am iechyd y person.

6.5 Fel arfer, byddwn yn cadw’r wybodaeth hon ar ein gwefan am wythnos oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn i ni gadw’r wybodaeth yno am gyfnod hwy. Bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn ystyried ceisiadau o’r fath.

**Dim amhariad ond cyhoeddir cyngor – achosion iechyd**

6.6 Os bydd panel yn canfod nad oes amhariad ar addasrwydd person i ymarfer ond, serch hynny, bod angen cyhoeddi cyngor ffurfiol, byddwn yn rhoi’r wybodaeth ychwanegol ganlynol ar ein gwefan ar ddiwedd y gwrandawiad:

- canlyniad[21]

6.7 Fel arfer, byddwn yn cadw’r wybodaeth hon ar ein gwefan am dri mis oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn i ni gadw’r wybodaeth yno am gyfnod hwy. Bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn ystyried ceisiadau o’r fath.

**Dim amhariad ond rhoddir rhybudd – achosion iechyd**

6.8 Os bydd panel yn canfod nad oes amhariad ar addasrwydd person i ymarfer ond bod angen rhybudd ffurfiol, byddwn yn rhoi’r wybodaeth ganlynol ar ein gwefan ar ddiwedd y gwrandawiad:

- canlyniad[22]

6.9 Byddwn yn cadw’r wybodaeth hon ar ein gwefan cyhyd ag y bydd y rhybudd ar waith.

[21] Os cynhaliwyd rhywfaint neu’r cyfan o’r gwrandawiad yn gyhoeddus, bydd y Crynodeb o’r Penderfyniad yn cael ei gyhoeddi hefyd a bydd yn aros ar y wefan am yr un cyfnod â’r canlyniad. Bydd y Crynodeb o’r Penderfyniad ond yn ymwneud â’r rhannau o’r gwrandawiad a gynhaliwyd yn gyhoeddus ac ni fydd yn cynnwys gwybodaeth am iechyd y person.

[22] Os cynhaliwyd rhywfaint neu’r cyfan o’r gwrandawiad yn gyhoeddus, bydd y Crynodeb o’r Penderfyniad yn cael ei gyhoeddi hefyd a bydd yn aros ar y wefan am gyfnod y rhybudd. Fodd bynnag, bydd hwn ond yn ymwneud â’r rhannau o’r gwrandawiad a gynhaliwyd yn gyhoeddus ac ni fydd yn cynnwys gwybodaeth am iechyd y person.

# 7 Achosion cofrestru

7.1 Os bydd person yn apelio yn erbyn penderfyniad Cofrestrydd i wrthod cofrestriad neu adnewyddu cofrestriad, bydd Panel Apelau Cofrestru yn ystyried yr apêl hon. Cynhelir y gwrandawiadau hyn yn gyhoeddus fel arfer[23].

**Gwybodaeth a gyhoeddwn cyn gwrandawiad**

7.2 Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ganlynol ar ein gwefan wythnos cyn gwrandawiad:

- Enw;
- rhif cofrestru (os yw'r person eisoes wedi cofrestru ac yn adnewyddu ei gofrestriad);
- rôl (er enghraifft, gwneud cais am gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cartref);
- dyddiad ac amser y gwrandawiad;
- lleoliad y gwrandawiad (os na chynhelir y gwrandawiad o bell);
- y math o wrandawiad.

7.3 Os bydd y panel yn penderfynu cynnal penderfyniad y Cofrestrydd i beidio â chaniatáu cofrestriad neu adnewyddu'r cofrestriad, byddwn yn diweddaru'r wefan i ddangos y canlyniad. Ein nod fel arfer fydd gwneud hyn o fewn un diwrnod gwaith.

7.4 Os bydd y Panel yn penderfynu y dylid caniatáu i'r ymgeisydd/person cofrestredig ymuno/adnewyddu ei gofrestriad, byddwn yn diweddaru'r Gofrestr i adlewyrchu hyn pan fydd ei gofrestriad wedi cael ei gadarnhau.[24] Fel arfer, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniad ar ein gwefan am wythnos ar ôl y gwrandawiad. Gall y Cofrestrydd ystyried ceisiadau gan yr ymgeisydd/person cofrestredig i gyhoeddi'r wybodaeth hon am gyfnod hwy.

---

[23] Gall gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat os bydd iechyd corfforol neu iechyd meddwl yr ymgeisydd/person cofrestredig yn cael ei ystyried

[24] Bydd hyn yn digwydd ar adeg sy'n dibynnu pryd y mae'r ymgeisydd/person cofrestredig yn cwblhau gweddill camau'r broses gofrestru, gan gynnwys talu ffioedd ac unrhyw dasgau gweinyddol eraill.

## 8. Achosion adfer

8.1 Os bydd person sy’n destun gorchymyn dileu yn gwneud cais i gael ei adfer i’r Gofrestr, byddwn yn rhoi’r wybodaeth ganlynol ar ein gwefan wythnos cyn gwrandawiad y Panel Apelau Cofrestru:

- enw;
- rhif cofrestru;
- rôl;
- dyddiad ac amser y gwrandawiad;
- lleoliad y gwrandawiad (os na chynhaliwyd y gwrandawiad o bell); ac
- y math o wrandawiad.

8.2 Os bydd panel yn penderfynu y dylai enw’r person gael ei adfer i’r Gofrestr, byddwn yn diweddaru’r wefan i ddangos y canlyniad, tynnu ei enw o’r Rhestr a’i ychwanegu at y Gofrestr.[25] Fel arfer, byddwn yn dileu’r holl wybodaeth am y gwrandawiad o’r wefan wythnos ar ôl i’r gwrandawiad ddod i ben.[26]

8.3 Bydd y Gofrestr yn parhau i ddangos bod y person wedi bod yn destun gorchymyn dileu yn flaenorol.[27]

8.4 Os bydd panel yn penderfynu na ddylai enw person gael ei adfer i’r Gofrestr, byddwn yn cadw ei enw ar y Rhestr. Byddwn yn dileu gwybodaeth am y gwrandawiad o’n gwefan ymhen 12 mis, sef y cyfnod lleiaf y mae’n rhaid i ymgeisydd am adfer, nas gwaharddwyd rhag gwneud ceisiadau pellach, aros cyn gwneud cais o’r newydd i’r Gofrestr.

8.5 Os bydd panel yn penderfynu y dylid atal hawl person i wneud cais i gael ei adfer, byddwn yn dileu gwybodaeth am y gwrandawiad o adran Canlyniadau

---

[25] Bydd hyn yn digwydd ar adeg sy’n dibynnu pryd y mae’r ymgeisydd yn cwblhau gweddill camau’r broses gofrestru, gan gynnwys talu ffioedd ac unrhyw dasgau gweinyddol eraill.
[26] Os bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn cytuno i gais o’r fath gan y person cofrestredig, gall y wybodaeth aros ar y wefan am gyfnod hwy.
[27] Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion Deddf Rheoleiddio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2017.

gwrandawiadau ein gwefan ymhen 12 mis neu, pan fydd panel yn codi'r gwaharddiad, os bydd hynny'n digwydd yn gynt.[28]

## 9. Apelau i'r Tribiwnlys Safonau Gofal

9.1 Gall ymgeisydd neu berson cofrestredig apelio yn erbyn penderfyniad y Panel i wrthod ei gofrestriad neu ei adfer. Os bydd apêl person yn llwyddiannus, a bydd ei gofrestriad yn cael ei ganiatáu/adfer, byddwn yn diweddaru ein gwefan i gynnwys y wybodaeth hon a diweddaru'r Gofrestr yn unol â hynny.[29]

## 10. Datganiadau i'r wasg

10.1 Os nad yw iechyd y person cofrestredig yn un o'r seiliau dros amhariad ac nid oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar roi cyhoeddusrwydd i wrandawiad, byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am y person cofrestredig wythnos cyn gwrandawiad:

- Enw;
- rhif cofrestru;
- crynodeb o'r cyhuddiadau;
- cyflogwr presennol/blaenorol; ac
- ardal awdurdod lleol.

## 11. Darpariaethau amrywiol

<u>Canlyniadau lefel swyddog (nid penderfyniadau panel)</u>

[28] Dywed Adran 97(5) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 y gall yr unigolyn y mae'r gorchymyn yn effeithio arno ofyn i'r Cofrestrydd drefnu bod panel yn adolygu'r gorchymyn.
[29] Bydd hyn yn digwydd ar adeg sy'n dibynnu pryd y mae'r ymgeisydd yn cwblhau gweddill camau'r broses gofrestru, gan gynnwys talu ffioedd ac unrhyw dasgau gweinyddol eraill.

11.1 Os bydd person cofrestredig yn destun rhybudd gan swyddog neu ymgymeriadau, byddwn yn rhoi manylion y canlyniad hwn ar y Gofrestr. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr).

11.2 Yn achos rhybuddion gan swyddog ac ymgymeriadau, byddwn yn dileu'r wybodaeth hon o'r Gofrestr pan ddaw grym y gorchymyn i ben.

<u>Apelau llwyddiannus yn erbyn penderfyniadau paneli addasrwydd i ymarfer</u>

11.3 Os bydd y person cofrestredig yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer ac mae'r penderfyniad gwreiddiol yn cael ei ddangos o hyd ar ein gwefan, byddwn yn diweddaru'r wefan i ddangos y canlyniad newydd neu, lle y bo'n berthnasol, yn dileu'r cofnod. Ein nod fydd gwneud hyn o fewn wythnos o'r dyddiad pan fyddwn yn cael gwybod am y penderfyniad.

11.4 Bydd y canlyniad yn aros ar y wefan am wythnos oni bai bod y person cofrestredig yn gofyn i ni ei gadw yno am gyfnod hwy ac mae'r Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn cytuno i'r cais hwn.

<u>Gwybodaeth am achwynwyr</u>

11.5 Os bydd yr achwynydd yn berson sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, neu os oes rhesymau eraill dros gadw'i fanylion yn gyfrinachol, y gyfraith neu benderfyniad y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd, ni fyddwn yn cyhoeddi enw'r achwynydd. Ni fydd unrhyw benderfyniadau a gyhoeddir am wrandawiadau yn cynnwys gwybodaeth sy'n datgelu pwy yw'r unigolyn.[30]

11.6 Gallem drosglwyddo manylion yr achwynydd i gyrff rheoleiddio eraill, i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'r Tribiwnlys Safonau Gofal, ond

[30] Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddioddefwyr troseddau rhywiol neu gamdriniaeth arall, gan gynnwys pan fydd y gamdriniaeth yn sylfaen yr atgyfeiriad addasrwydd i ymarfer, plant, pobl agored i niwed a phobl y mae risg niwed iddynt yn sgil datgelu eu henw.

gwnawn hynny yn gyfrinachol a dim ond gyda chytundeb yr achwynydd, onid yw'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth o'r fath yn ôl y gyfraith, ac os felly, byddwn yn ei rhannu ni waeth p'un a yw'r unigolyn yn cydsynio ai peidio. Byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw gytundebau rhannu data perthnasol rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a'r corff perthnasol.

<u>Gwybodaeth a all ymddangos wrth ddefnyddio peiriannau chwilio'r rhyngrwyd</u>

11.7 Byddwn yn dileu gwybodaeth am wrandawiadau o'n gwefan yn unol â'r polisi hwn. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl i ni dynnu gwybodaeth o'r fath, gall fod yn bosibl o hyd i eraill ei darganfod trwy chwilio'r rhyngrwyd. Ni allwn atal hyn rhag digwydd, ond gall pobl y mae hyn yn effeithio arnynt gysylltu â darparwyr peiriannau chwilio (e.e. Google) i drafod unrhyw bryderon. Byddwn yn gallu cadarnhau a yw gwybodaeth wedi cael ei dileu o'n gwefan ac, os felly, pryd y cafodd ei dileu.

<u>Newid enw a gwybodaeth gyhoeddedig</u>

11.8 Pan atgyfeirir person cofrestredig i ni oherwydd pryderon am ei addasrwydd i ymarfer ac mae'n defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, enw gwahanol i'r enw a ddefnyddiwyd i'w atgyfeirio, bydd y Cofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd yn penderfynu pa enw(au) i'w cynnwys yn ein gwybodaeth gyhoeddedig a pha wybodaeth all gael ei rhyddhau i'r wasg neu i'r cyhoedd.

11.9 Mae hyn yn berthnasol hefyd yn yr achosion canlynol:

- mae'r person yn newid ei enw ar ôl gwrandawiad ac mae gwybodaeth gyhoeddedig berthnasol am ei addasrwydd i ymarfer ar ein gwefan o dan ei enw blaenorol;
- mae canlyniad perthnasol (cyhoeddedig) lefel swyddog amdano yn dilyn pryderon addasrwydd i ymarfer;

- tynnwyd y person o’r Gofrestr o dan enw gwahanol ac mae’n gwneud cais nawr am gael ei adfer i’r Gofrestr.

11.10 Wrth wneud penderfyniadau yn yr achosion hyn, bydd y Cofrestrydd/Dirprwy yn ystyried ffactorau fel a ganlyn, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- ein dyletswyddau statudol o dan a68 y Ddeddf;
- deddfwriaeth berthnasol sy’n amddiffyn hawliau unigol – e.e. y Ddeddf Cydraddoldeb, y Ddeddf Hawliau Dynol, y Ddeddf Cydnabod Rhywedd a’r Ddeddf Diogelu Data;
- ystyriaethau polisi perthnasol – e.e. polisi diogelu;
- unrhyw gynrychioliadau gan y partïon a effeithiwyd;
- difrifoldeb y materion a arweiniodd at yr atgyfeiriad a/neu waredad o dan addasrwydd i ymarfer; ac
- y graddau y gellir mynd i’r afael yn foddhaol trwy ddulliau eraill ag unrhyw risgiau amddiffyn y cyhoedd sy’n deillio o benderfyniad i gyfyngu ar gyhoeddi’r enw(au).

## 12. Cwynion a phryderon

12.1 Caiff y polisi hwn ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae’n destun asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb a diogelu data. Rydym bob amser yn croesawu adborth ar ffyrdd o’i wella. Os oes gennych unrhyw bryderon am y polisi hwn neu os hoffech roi adborth i ni, darllenwch ein polisi Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion ar: gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/beth-rydym-yn-ei-wneud#section-33632-anchor

## 13. Adnoddau eraill

13.1 Cewch wybodaeth am ein prosesau addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau ar socialcare.wales/fitness-to-practise

13.2 Gallwch chwilio ein Cofrestr a'n Rhestr a darganfod mwy am ein prosesau cofrestru ac adfer ar gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru

13.3 Cewch gopi o'n hysbysiad preifatrwydd ar gofalcymdeithasol.cymru/generic-content/hysbysiad-preifatrwydd a gwybodaeth fanwl gan y Comisiynydd Gwybodaeth am eich hawliau diogelu data ar ico.org.uk/

**Awdurdodwyd gan**: Hywel Dafydd, Cyfarwyddwr Rheoleiddio Cynorthwyol/Dirprwy Gofrestrydd

**Dyddiad:** 19.7.23

**Llofnod:** 

# ATODIAD 1

# Gwybodaeth sy'n ymddangos ar Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru

## 1. Gorchmynion interim ar y Gofrestr

1.1. Dim ond dau fath o orchymyn interim y gall panel addasrwydd i ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru eu gwneud – gorchymyn cofrestru amodol interim a gorchymyn atal dros dro interim.

1.2. Bydd cofnodion am orchmynion interim ar y Gofrestr yn dangos:

- y math o orchymyn interim sydd wedi'i wneud neu ei gadarnhau;
- dyddiad y gwrandawiad neu'r gwrandawiad adolygu;
- y math o orchymyn;
- y cyflogwr neu'r cyflogwr blaenorol;
- hyd y gorchymyn;
- unrhyw amrywiad a wnaed, os yw'n gymwys; ac
- yn achos gorchymyn cofrestru amodol interim, yr amodau a osodwyd, heblaw amodau'n gysylltiedig ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl.

1.3. Byddwn yn dileu gwybodaeth am y gorchymyn interim o'r Gofrestr pan fydd y gorchymyn yn dod i ben neu'n cael ei ddirymu.

## 2. Canlyniadau gwrandawiadau ar y Gofrestr – canfod amhariad mewn achosion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd

2.1. Os canfuwyd amhariad, bydd y cofnod ar y Gofrestr yn dangos:

- bod amhariad wedi'i ganfod ar addasrwydd y person i ymarfer;

- y math o orchymyn y rhoddodd y panel ar waith;
- hyd y gorchymyn (os yw'n orchymyn effaith ar unwaith, rhaid datgan hynny); a
- manylion y gorchymyn, fel amodau neu ymgymeriadau.[31]

## 3. Pryd bydd gwybodaeth am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer (sy'n cynnwys amhariad) yn cael ei dileu o'r Gofrestr?

| Math o orchymyn | Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei dileu o Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru? | Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei dileu o wefan Gofal Cymdeithasol Cymru? |
|---|---|---|
| Rhybudd | Pan ddaw'r rhybudd i ben neu mae'n peidio â chael effaith fel arall. | Pan ddaw'r rhybudd i ben neu mae'n peidio â chael effaith fel arall. |
| Ymgymeriadau | Pan na fydd yr ymgymeriadau'n berthnasol mwyach.<br><br>Os bydd cofrestriad y person cofrestredig yn darfod neu caiff ei ddileu'n wirfoddol tra bydd yr ymgymeriadau ar waith, bydd yr ymgymeriadau'n parhau'n berthnasol ac arhosant ar y Gofrestr hyd nes bydd yr ymgymeriadau'n peidio â chael effaith. | Pan fydd yr ymgymeriadau'n peidio â chael effaith. |
| Atal dros dro | Mae cofnod o'r atal dros dro yn aros ar y Gofrestr tra bydd y person wedi cofrestru. | Pan fydd yr atal dros dro'n peidio â chael effaith. |
| Cofrestru amodol | Bydd y Gofrestr yn parhau i ddangos bod y person wedi bod yn destun gorchymyn cofrestru amodol a'r dyddiadau pan oedd y gorchymyn ar waith, ond gall y Cofrestrydd ddileu manylion yr amodau a osodwyd o dan y | Pan fydd y gorchymyn cofrestru amodol yn peidio â chael effaith. |

[31] *Os cytunir ar ymgymeriadau (yn hytrach na bod y panel yn eu gorfodi), rhaid i'r Gofrestr ddangos bod y person yn cyfaddef bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer a nodi'r ymgymeriadau y cytunwyd arnynt, heblaw am unrhyw ymgymeriadau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl y person.

| | | |
|---|---|---|
| | gorchymyn ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben. | |
| Dileu | Bydd manylion y dileu yn ymddangos ar y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr a byddant yn aros yno oni bai a hyd nes y bydd y person yn cael ei adfer i'r Gofrestr (neu y bydd tribiwnlys yn gwrthdroi'r dileu)<br><br>Bydd gwybodaeth am y dileu bob amser yn cael ei dangos ar y Gofrestr os caiff y person ei adfer i'r Gofrestr. | Pum mlynedd o'r dyddiad dileu. |
| Atal dros dro amhenodol | Mae cofnod o'r atal dros dro yn aros ar y gofrestr cyhyd ag y bydd y person wedi cofrestru. | 5 mlynedd o'r dyddiad atal dros dro amhenodol, oni chaiff y person ei adfer i'r Gofrestr cyn yr amser hwn neu caiff ei ddileu o'r Gofrestr trwy orchymyn dileu. |
| Adfer | Adfer – bydd gwybodaeth am ddileu'r person o'r Gofrestr yn sgil canfod amhariad yn aros ar y Gofrestr cyhyd ag y bydd y person wedi cofrestru. | Wythnos o ddyddiad y penderfyniad, neu am gyfnod hwy ar gais y person cofrestredig. |
| | Peidio ag adfer – bydd y cofnod ar y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr yn aros yn ei le. | 12 mis o ddyddiad y penderfyniad i beidio ag adfer. |

## 4. Cofnodion ar y Gofrestr yn sgil canfod nad oes amhariad

4.1 Os bydd panel addasrwydd i ymarfer yn canfod nad oes amhariad ac mae'r person cofrestredig wedi cael cyngor neu rybudd, rhaid i'r cofnod ar y Gofrestr ddatgan nad oes amhariad ar addasrwydd y person i ymarfer a dangos y canlyniad.

| **Math o orchymyn** | **Pryd bydd y wybodaeth yn cael ei dileu o'r Gofrestr?** | **Pryd bydd y wybodaeth yn cael ei dileu o'r wefan?** |
|---|---|---|
| Cyngor (panel) | Bydd y wybodaeth yn aros ar y Gofrestr am 3 mis fel arfer. Bydd y Cofrestrydd yn ystyried unrhyw geisiadau gan y person cofrestredig i gadw'r wybodaeth yno am gyfnod hwy. | 3 mis, oni bai bod y person cofrestredig wedi gofyn bod y wybodaeth yn aros ar y wefan am gyfnod hwy ac mae'r Cofrestrydd wedi cytuno i hyn. |
| Rhybudd (panel) | Pan ddaw'r rhybudd i ben neu mae'n peidio â chael effaith fel arall. . | Pan ddaw'r rhybudd i ben neu mae'n peidio â chael effaith fel arall. |

**5. Cofnodion ar y Gofrestr yn dilyn rhybudd ar lefel swyddog neu ymgymeriadau.**

| **Penderfyniad** | **Beth fydd y cofnod ar y Gofrestr yn ei ddangos?** | **Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei dileu o'n gwefan?** |
|---|---|---|
| Rhybudd (swyddog) | Rhaid i'r cofnod ddatgan na ddyfarnwyd ar yr amheuaeth o amhariad a bod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi rhoi rhybudd. | Pan ddaw'r rhybudd i ben neu mae'n peidio â chael effaith fel arall. |
| Ymgymeriadau (swyddog) | Rhaid i'r cofnod ddatgan na ddyfarnwyd ar yr amheuaeth o amhariad, a nodi'r ymgymeriadau y cytunwyd arnynt, heblaw am unrhyw ymgymeriadau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl y person. | Pan fydd yr ymgymeriadau'n peidio â chael effaith. . |

# 6. Canlyniadau Paneli Apelau Cofrestru

| **Canlyniad** | **Pryd byddwn yn diweddaru Cofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru?** | **Pryd bydd y wybodaeth hon yn cael ei dileu o wefan Gofal Cymdeithasol Cymru?** |
|---|---|---|
| Cynnal penderfyniad y Cofrestrydd – Ni chaniatawyd cofrestru/adnewyddu | Os na chaniateir adnewyddu – fel arfer, byddwn yn diweddaru'r Gofrestr o fewn 2 ddiwrnod gwaith[32]<br><br>Os bydd y penderfyniad yn gysylltiedig â chais cychwynnol – ni fydd newid i'r Gofrestr. Os na chaniateir adnewyddu, bydd enw'r unigolyn yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr yn unol â'r dyddiad y daw ei gofrestriad i ben. | Wythnos ar ôl cyhoeddi |
| Ni chynhaliwyd penderfyniad y Cofrestrydd – caniatawyd cofrestru/adnewyddu | Fel arfer, byddwn yn diweddaru'r Gofrestr o fewn 3 diwrnod gwaith o'r penderfyniad[33] | Wythnos ar ôl cyhoeddi |
| Caniatáu adfer | Fel arfer bydd y Gofrestr wedi'i diweddaru o fewn 3 diwrnod gwaith o'r penderfyniad | Wythnos ar ôl cyhoeddi |
| Peidio â chaniatáu adfer | Ddim yn berthnasol – dim newid i'r Gofrestr/Rhestr y Personau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr | 12 mis ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad. |

[32] Bydd enw'r unigolyn yn cael ei dynnu oddi ar Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru.
[33] Bydd hyn yn digwydd ar adeg sy'n dibynnu pryd y mae'r ymgeisydd/person cofrestredig yn cwblhau gweddill camau'r broses gofrestru, gan gynnwys talu ffioedd ac unrhyw dasgau gweinyddol eraill.

# ATODIAD 2

**Gwybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y**

**Rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr a'r rhestr Dileu drwy Gytundeb ar lefel swyddog**

1. Rhaid i gofnod ar y Rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr ("y Rhestr") ddangos:

   a. enw'r person
   b. dyddiad dileu'r person o'r Gofrestr; a
   c. pha rai o'r amgylchiadau yn adran 110(2) neu (4) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a achosodd i'w gofnod ar y Gofrestr gael ei ddileu.

   Sylwer: Mae Adran 110(2) yn cwmpasu dileu ar ôl i banel addasrwydd i ymarfer neu banel adolygu addasrwydd i ymarfer ganfod amhariad. Mae Adran 110(4) yn cwmpasu dileu drwy gytundeb gan banel addasrwydd i ymarfer neu banel adolygu addasrwydd i ymarfer.

2. Hefyd, bydd y Rhestr yn dangos:[34]

   a. rhif cofrestru blaenorol y person gyda Gofal Cymdeithasol Cymru;
   b. dyddiad y gwrandawiad pan dynnwyd y person o'r Gofrestr/Rhestr;
   c. y math o wrandawiad;
   ch. rôl gofrestredig y person;
   d. Crynodeb o'r penderfyniad.

3. **Cofnodion dileu drwy gytundeb (gan banel) ar y Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr.**

[34] Bydd eitemau (d) i'w gweld cyhyd ag y bydd y ddolen i'r wefan Gwrandawiadau yn weithredol.

a) Os gwnaeth panel ganiatáu dileu drwy gytundeb heb fynd i'r afael â'r amheuaeth o amhariad, bydd y Rhestr yn dangos y datganiad cytunedig o ffeithiau ac nad ystyriwyd yr amheuaeth o amhariad[35].
b) Os gwnaeth panel ganiatáu dileu drwy gytundeb ar ôl canfod amhariad, bydd y cofnod ar y Rhestr yn dangos y datganiad cytunedig o ffeithiau a bod amhariad wedi'i ganfod.
c) Bydd cofnodion ar y Rhestr yn aros yn eu lle oni bai a hyd nes y bydd enw'r person yn cael ei adfer i'r Gofrestr drwy gais llwyddiannus i Ofal Cymdeithasol Cymru, neu apêl lwyddiannus i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.

## 4. Rhestr o achosion dileu drwy gytundeb (dileu drwy gytundeb ar lefel swyddog)

4.1. Bydd y rhestr dileu drwy gytundeb yn dangos y wybodaeth ganlynol:

a. Enw
b. Rhif Cofrestru
c. Dyddiad dileu
Ch. Datganiad cytunedig o ffeithiau, lle y bo'n briodol

4.2. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei thynnu o'r rhestr dileu drwy gytundeb ddwy flynedd ar ôl ei chyhoeddi.

[35] a110(5) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a rheoliad 3(c) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016